TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Bedwen Arian Silver Birch *(Betula pendula)*

1. Coeden gollddail, sy'n tyfu'n gymharol gyflym, ac yn cyrraedd aeddfedrwydd yn tua 40 mlwydd oed, o gymharu â choeden dderw a allai gymryd cannoedd o flynyddoedd, yw'r fedwen arian.

2. Pan fo'r coed yn ifanc, mae ganddynt risgl gwyn fel papur a dyna pam yr enw bedwen arian. Mae'r rhisgl yn datblygu holltau tywyll wrth i'r goeden aeddfedu ac mae'n dwyn cenawon coed yn y gwanwyn.

3. Gall y fedwen dyfu yn unrhyw le bron, o safleoedd hen adeiladau i gopaon mynyddoedd. Fe'i gelwir yn rhywogaeth 'arloesi' gan mai hi yw un o'r coed cyntaf i gytrefu rhywle agored.

4. Gellir clymu'r brigau at ei gilydd i wneud ysgubellau, sef ysgubau traddodiadol, y mae gwrachod yn hedfan arnynt yn ôl pob sôn! Hefyd, mae'r rhisgl yn dal dw^r ac fe'i defnyddir felly mewn trin crwyn, yn cynnwys cynhyrchu tar bedwen a ddefnyddir i wneud i ledr ddal dŵr. Byddai siarcol a wneid o'r fedwen Arian yn cael ei ddefnyddio fel powdwr gwn. Mae sudd coeden fedw yn gwneud gwin da, y credid fod iddo briodoleddau meddyginiaethol. Yn llai dymunol, byddai'r 'wialen fedw' yn cael ei defnyddio mewn llawer o ysgolion i guro plant!

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Adwaenir y fedwen arian fel "Boneddiges y goedwig". Tybir ei bod yn gyson a chyfeillgar – coeden gyfaredd.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Breuwydden Alder Buckthorn
(*Frangula alnus*)

1. Mae'r freuwydden yn tyfu fel llwyn neu goeden fechan hyd at tua 5 metr o uchder. Er gwaethaf ei enw Saesneg, 'buckthorn', 'does gan y planhigyn hwn ddim drain. Mae'n tyfu'n bennaf mewn priddoedd llaith a mawnaidd, gweundir llaith a choedydd agored.

2. Mae gan y freuwydden risgl llwyd – du. 'Does dim dannedd ar ei dail ac mae'u tu uchaf yn wyrdd sgleiniog. Yn yr hydref mae'r dail yn troi'n lliw melyn gydag arlliw o goch.

3. Mae hi'n un dda ar gyfer bywyd gwyllt a hithau'n denu gwenyn at ei blodau gwyn ym mis Mai ac adar i fwydo ar yr aeron du / porffor yn yr hydref.

4. Yn draddodiadol, mae'r pren wedi'i ddefnyddio i gynhyrchu golosg sy'n llosgi'n wastad, a ddefnyddid mewn powdwr gwn hefyd.

5. Mae modd miniogi'r brigau hir syth a chaent eu defnyddio i wneud saethau a sbigynnau a sgiwerau cigydd.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Mae gwahanol rannau o'r freuwydden wedi'u defnyddio i gynhyrchu llifynnau o wahanol liw;

- Y rhisgl a'r dail i wneud melyn
- Yr aeron anaeddfed i wneud gwyrdd
- Yr aeron anaeddfed i wneud gwyrdd

Arferai'r golosg gael ei falu'n fân a'i fwydo i bobl a oedd wedi'u gwenwyno i helpu i amsugno'r cemegau.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Ceiriosen Ddu Wild Cherry *(Prunus avium)*

1. Mae'r goeden geirios yn yr un genws ag eirin ac eirin sych, ond mae'r ffrwyth yn llawer llai. Mae'n gyffredin mewn coedwigoedd ledled y Deyrnas Unedig, ond yn brinnach yn yr Alban.

2. Mae gan goed ifanc risgl sgleiniog llwyd-binc tywyll. Mewn coed hŷn mae hyn yn newid yn borffor-goch gyda rhesi neu glytiau o farciau llorweddol a elwir yn lentiselau. Mae'r dail yn bump i un ar bymtheg centimetr o hyd, ac mae iddynt ymyl danheddog mân.

3. Mae'r coed yn dwyn blodau gwynion toreithiog yn y gwanwyn a chlystyrau o ffrwythau sgleiniog yn niwedd yr haf. Mae'r ffrwyth yn newid lliw o felyn drwy goch i borffor wrth iddo aeddfedu.

4. Mae'r geiriosen yn atyniadol i wenyn a glöynnod byw pan fydd hi'n blodeuo yn y gwanwyn ac mae'i haeron yn ffynhonnell fwyd ragorol i adar yn niwedd yr haf a'r hydref.

5. Mae pren y goeden geirios yn goch prydferth ac yn fân ei raen. Mae'n ddigon cryf i wneud carnau celfi ac yn fawr ei barch gan seiri dodrefn.

6. Defnyddid trwyth a wneid o goesynnau'r aeron yn feddyginiaethol i drin broncitis ac anemia.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Mae i lên gwerin y geiriosen ddu gysylltiadau anarferol â'r gog, yn ôl pa un y mae'n rhaid iddi fwyta tri phryd da o geirios cyn y gall stopio canu.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**
COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Coeden Grabas Crab apple
(Malus sylvestris)

1. Mae'r goeden grabas yn cynhyrchu blodau prydferth yn y gwanwyn ac afalau lliwgar bychain yn yr hydref.

2. Bydd y goeden yn tyfu hyd at 7 troedfedd neu ychydig dros 2 fetr mewn tua 10 mlynedd.

3. Defnyddir yr afalau i wneud jeli a gwin afalau surion bach. Gellir eu rhostio hefyd a'u gweini gyda chig a'u hychwanegu at gwrw a phwnsh gaeaf.

4. Yn lwerddon roedd lliw melyn yn cael ei dynnu allan o'r rhisgl i liwio gwlân.

5. Y goeden grabas yw'r goeden afalau Brydeinig wreiddiol.

MYTHAU A LLÊN GWERIN

- Mae llawer o gredoau'n deillio o afalau surion bach, yn ymwneud â chariad a phartneriaid priodas gan mwyaf. Enghraifft o hyn yw taflu hadau i mewn i'r tân tra byddwch yn dweud enw eich gwir gariad, os yw'r hedyn yn ffrwydro mae'r cariad yn gywir.
- Roedd y goeden grabas yn cael ei hadnabod fel y 'Goeden Cariad' gan yr Hen Geltiaid.
- Mae Shakespeare yn cyfeirio at afalau surion bach hefyd yn A Midsummer Night's Dream a Love's Labour Lost;

"When all aloud the wind doth blow,
And coughing drowns the parson's saw,
And birds sit brooding in the snow,
And Marian's nose looks red and raw,
When roasted crabs hiss in the bowl."
William Shakespeare (1564-1616)
Love's Labour's Lost, 1594

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WÎDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Collen Hazel (*Corylus avellana)*



1. Mae'r gollen yn llwyn collddail sy'n tyfu i uchder o oddeutu 6 metr. Mae ganddi nifer o goesynnau a bydd yn tyfu'n aml dan goed uchaf y goedwig. Fe'i defnyddir yn aml hefyd mewn perthi.

2. Cynffonnau wyn bach hir a llipa yw'r blodau gwrywaidd, ac mae'r blodau benywaidd yn edrych fel blagur bach coch. Caiff y gollen ei pheillio gan y gwynt, a'r paill yn teithio o'r cynffonnau wyn bach gwrywaidd i'r blodau benywaidd. Wedyn, fe fydd cnau cyll yn datblygu mewn clystyrau o un i bedair cneuen.

3. Caiff coesynnau'r gollen eu tocio (torri i'r ddaear i annog tyfiant newydd) fel ffynhonnell brigau a ffyn. Fe'u defnyddir i wneud clwydi, i gynnal planhigion dringo fel ffa, i wneud cylchoedd casgenni, basgedi, ffyn cerdded a thoeau gwellt. Maent yn goed tân ardderchog hefyd.

4. Mae cnau cyll yn flasus iawn, ac yn y gorffennol roeddynt yn ffynhonnell protîn bwysig – yn aml fe'u malwyd a'u cymysgu gyda blawd i gynhyrchu bara maethlon. Mae gwiwerod, llygod, ffesantod a phiod yn hoff iawn o gnau cyll.

5. Mae yna bum rhywogaeth o wyfynnod sy'n bwydo'n arbennig ar gyll, gan gynnwys pryfed turio adenydd cul y mae eu larfâu yn byw ym mhlygion y dail.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Credai'r Celtiaid fod cnau cyll yn ffynhonnell doethineb – mae chwedl Wyddelig hynafol yn sôn am naw o goed cyll a dyfai o amgylch pwll sanctaidd. Roedd yr eogiaid yn y pwll yn bwyta'r cnau wrth iddynt syrthio gan amsugno'r doethineb. Roedd nifer y brychau llachar ar groen yr eogiaid yn dangos faint o gnau oeddent wedi'u bwyta.

Roedd y Rhufeiniaid yn tyfu coed cyll ac oherwydd bod cymaint ohonynt yn yr Alban, fe alwyd y wlad yn ôl yr enw Lladin, sef Caledonia, sy'n dod o Cal-dun sy'n golygu 'Bryniau Cyll'. Yn yr Alban, mae hen arfer proffwydo cariad yn dal i ddigwydd adeg Calan Gaeaf. Rhoddir dwy gneuen gyll ar gols poeth, ac os ydynt yn llosgi'n dawel ac yn aros wrth ochr ei gilydd, fe fydd y ddau berson yn maent yn eu cynrychioli yn gweddu i'w gilydd.

Defnyddid y gollen i wneud hudlath dewin neu ffon ddewino dŵr. I wneud hyn rhaid torri'r pren pan fo'r lleuad yn newydd. Dylid chwilio am frigyn ar siap Y ar dyfiant sy'n ddwy oed. O ddal dau ben y siap Y yn eich dwylo bydd yn eich arwain at drysor, metalau neu ddŵr.

Pe bai llongwr yn gwisgo cap collen o dan ei het wrth hwylio'r llong, gallai ddod i'r lan yn ddiogel er gwaethaf pob storm.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Criafolen Rowan *(Sorbus aucuparia)*

1. Mae gan y griafolen ddail cyfansawdd – neu ddail wedi'u rhannu'n ddeilios cyferbyn – megis rhai'r onnen. Mewn gwirionedd, ei henw Saesneg yw 'mountain ash'. Mae iddi flodau gwyn ac mae'n cynhyrchu aeron coch yn yr hydref.

2. Mae'r goeden hon yn hoffi pridd ysgafn, mawnaidd sydd wedi'i ddraenio'n dda. Mae'r griafolen i'w chael yn tyfu hyd at uchder o 1000m, ac mewn mannau creigiog, serth.

3. Gellir defnyddio'r aeron i wneud jeli sy'n llawn fitamin C, ac sy'n cael ei fwyta gyda helgig. Mae'r pren yn ddigon cryf i wneud pyst ffensys, coesau ysgubau a ffyn cerdded, ac yn ddigon hyblyg i blethu cewyll pysgota. Yn y Canol Oesoedd, defnyddid pren y griafolen i wneud bwâu, yn ogystal â charnau celfi, powlenni a phlatiau.

4. Mae aeron y griafolen yn atyniadol iawn i adar sy'n bwyta ffrwythau, ac adlewyrchir hyn yn yr hen enw "daliwr adar". Mae'r ffrwyth yn feddal a suddlon, sy'n ei wneud yn fwyd da iawn i adar, yn arbennig y gynffon sidan a'r fronfraith.

5. Mae'r enw Saesneg "rowan" yn deillio o'r enw Hen Norwyeg am y goeden, raun neu rogn. Cred ieithwyr fod yr enw Norwyeg yn deillio yn y bôn o air proto-Almaenaidd raudnian sy'n golygu "mynd yn goch" ac a oedd yn cyfeirio at y dail coch a'r aeron coch yn yr hydref.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Fel coed coch eu haeron eraill, dywedid fod y griafolen yn cynnig amddiffyniad rhag ysbrydion drwg. Mae hyn yn egluro paham fod y griafolen i'w chael yn aml wedi'i phlannu o amgylch tai yn yr Alban, yn aml wrth y drws i atal ysbrydion drwg rhag dod i mewn i'r tŷ. Mae rhai coed yn Ucheldiroedd yr Alban hyd yn oed wedi goroesi hen grofftydd anghyfannedd.

Byddai ffyn dewiniaid yn cael eu gwneud o bren Criafol yn ôl pob sôn oherwydd ei rinweddau amddiffynnol ar gyfer siwrneiau diogel yn y nos.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Cwyrwialen Dogwood (*Cornus sanguinea*)

1. Mae cwyrwialen yn llwyn collddail sy'n tyfu i uchder o rhwng 2 a 5 metr gyda choesynnau ag arlliw coch arnynt, sy'n nodwedd ddeniadol iawn yn y gaeaf. Mae ganddo glystyrau o flodau bach gwyn, sydd ag arogl annymunol i bobl ond sy'n ddymunol i bryfed. Fe'u dilynir gan ffrwythau bach du, chwerw na ellir eu bwyta. Mae'r dail yn troi'n goch llachar yn yr hydref.

2. Er mwyn cynnal y coesynnau lliwgar, dylid tocio'r llwyn i lawr at y ddaear (neu dylid tynnu'r cyffion hŷn, salaf) bob blwyddyn neu ddwy i annog tyfiant newydd.

3. Mae'r gair Saesneg am gwyrwialen (dogwood) yn cynnwys y gair Saesneg am gi, ond nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y goeden a chŵn! Mae'r pren yn galed ac fe'i defnyddiwyd i wneud sgiweri a elwid hefyd yn "dags". Mae hyn hefyd yn esbonio tarddiad y gair Saesneg "dagger". Roedd "Oetzi", y gŵr iâ 5000 oed o Oes y Cerrig a ddarganfuwyd ar ffin Awstria a'r Eidal ym 1991, yn cario saethau a wnaed o gwyrwialen.

4. Mae cwyrwialen yn blanhigyn bwyd i lindys y gloynnod brithribin gwyrdd a glesyn y celyn.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Yn ôl hen gred yng Nghymru, os rhoddir sudd cwyrwialen mewn hances caiff y sawl a'i cario wireddu pob dymuniad.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Derwen Oak

1. Mae dau fath o dderwen frodorol sydd i'w cael yn y Deyrnas Unedig;

Derwen goesynnog neu gyffredin
(Quercus robur)
Yn gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig mewn coetir, parciau a gwrychoedd. Mae gan y dderwen goesynnog fes ar goesynnau hir.

Derwen ddigoes *(Quercus petraea)*
Derwen drech priddoedd gwaelach gogledd a gorllewin Prydain a rhai o ardaloedd tywodlyd de-ddwyrain Lloegr. Mae'r gair "digoes" yn cyfeirio at y ffordd y mae'r cwpanau mes yn eistedd yn union ar y brigau, yn hytrach na'u bod yn hongian o goesyn.

2. Mae'r ddwy rywogaeth yma o'r dderwen yn gollddail. Mae cenawon arnynt yn y gwanwyn a mes yn yr hydref.

3. Mae'r dderwen yn goeden bwysig i fywyd gwyllt. Mae'n denu amrywiaeth o bryfetach sydd yn eu tro yn denu adar megis delorion y cnau, gwybedogion a theloriaid a chnocellod y coed i enwi ond ychydig. Mae'r mes yn darparu bwyd sy'n denu lliaws o fywyd gwyllt megis gwiwerod a mamaliaid bychain.

4. Mae'r cysgod y mae'r dderwen yn ei roi yn annog twf blodau gwyllt fel clychau'r gog, briallu, blodau'r gwynt, bysedd y cŵn a suran y coed.

5. Gall y dderwen fyw dros 700 mlynedd yn hawdd, gan fyw'n hŷn nag unrhyw goeden frodorol heblaw am yr ywen. Fe enillodd gallu'r dderwen i ddod drwy wyntoedd cryf y gaeaf iddi'r enw "Brenhines y Goedwig".

6. Roedd coed derw'n cael eu ffafrio mewn tai coediog Tuduraidd oherwydd eu cryfder a'u hirbarhad, a byddai artistiaid yn defnyddio'r pren graen llyfn, lliw mêl ar gyfer cerfio a thurnio. Roedd y rhisgl yn werthfawr i'r diwydiant trin lledr oherwydd ei gynnwys uchel o dannin.

7. Defnyddid llawer ar dderw mewn adeiladu llongau. Roedd angen mwy na 5,500 o goed derw i adeiladu *HMS Victory*, sy'n cyfateb i 40 hectar (100 erw) o goetir.

MYTHAU A LLÊN GWERIN

Roedd llên gwerin yn dweud y byddai'r gerdd ganlynol yn rhagddweud y tywydd am yr haf.

"If the oak before the ash,
Then we'll only have a splash.
If the ash before the oak,
Then we'll surely have a soak!"

Mae yna beth tystiolaeth i ddangos bod y Dderwen yn deilio cyn yr Onnen yn rheolaidd yn awr a gallai fod cysylltiad rhwng hyn â'r newid yn yr hinsawdd.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Eirin-geiriosen Cherry plum
(Prunus cerasifera)

1. Mae gan yr eirin-geiriosen flodau bach gwyn del sy'n aml yn flodau gwyn cyntaf y flwyddyn i ymddangos – ym mis Chwefror fel arfer. Mae'r ffrwythau'n amrywio o ran lliw o goch tywyll i felyn golau, sy'n aeddfedu unrhyw adeg o ganol Gorffennaf i ddiwedd Awst.

2. Cyfartaledd uchder coeden eirin-geiriosen yw 6 i 9 metr.

3. Mae'r ffrwyth yn amlddefnydd a blasus. Mae'r blas a'r ansawdd yn amrywio rhwng coed, ond mae'r rhan fwyaf o'r ffrwythau'n rhagorol o'u bwyta'n amrwd. Gellir defnyddio eirin-geirios yn lle eirin cyffredin neu eirin damson yn y rhan fwyaf o ryseitiau, o grymbl i siytni. Gyda chynnwys uchel o bectin, maent yn ddelfrydol ar gyfer jam a jeli.

4. Mae ail ran yr enw Lladin – Cerasifera yn golygu "yn dwyn ffrwythau tebyg i geirios"

MYTHAU A LLÊN GWERIN

- Yr eirin-geiriosen yw rhagflaenydd eirin domestig.
- BLODYN BACH - Meddyginiaeth Blodyn Eirin-Geirios – defnyddir eirin-geiriosen (Prunus Cerasifera) fel meddyginiaeth i bobl sy'n ofni colli rheolaeth ar eu hymddygiad.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk
COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Gwifwrnwydden y gors Guelder rose *(Viburnum opulus)*

1. Er gwaethaf yr enw arni yn Saesneg – 'Guelder rose' – nid rhosyn mo hon o gwbl, ond mae'n perthyn i'r ysgawen. Llwyn collddail brigog ydyw, sy'n tyfu hyd at 4 metr o uchder. Fe'i ceir mewn coedydd, prysgwydd a gwrychoedd, yn arbennig mewn pridd llaith, sydd â llawer o galch ynddo.

2. Iseldireg yw'r enw guelder ac mae'n cyfeirio at y ffaith fod y llwyn hwn yn cael ei dyfu fel planhigyn gardd addurnol yn nhalaith Guelderland.

3. Mae gwifwrnwydden y gors yn cynhyrchu clystyrau pennau fflat o flodau gwyn peraroglus ym mis Mehefin a Gorffennaf. Mae blodau allanol mawr y clwstwr yn helpu i ddenu pryfetach megis pryfed hofran, ond mewn gwirionedd y blodau mewnol, llai crand sy'n cynhyrchu neithdar ac yn ffrwythlon.

4. Mae gwifwrnwydden y gors yn cynhyrchu aeron coch sgleiniog yn yr hydref. Mae'r rhain yn boblogaidd gydag adar (ee coch y berllan sy'n bwyta'r hadau o'u mewn) a mamaliaid bychain, er eu bod yn wenwynig i ddyn. Mae'r aeron yn troi'n ddu yn y diwedd ac maent wedi'u defnyddio i wneud inc. Mae'r dail yn troi'n goch llachar, porffor neu felyn ym mis Hydref ac yn disgyn fel arfer yn nechrau Tachwedd.yn.

5. Mae pren gwifwrnwydden y gors wedi'i ddefnyddio i wneud gweill ac mae'i rhisgl wedi'i ddefnyddio fel meddyginiaeth lysieuol at glymau gwythi cyhyrol ac asthma.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WÎDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Gwernen Alder (*Alnus glutinosa*)

1. Mae'r wernen yn gyffredin ar draws y DU ac mae i'w chael yn aml ar hyd cyrsiau dŵr. Mae'r wernen yn aelod o deulu'r coed bedw a gall dyfu i uchder o 25m.

2. Mae gan y wernen risgl rhesog (hollteisiog) llwyd tywyll a dail gwyrdd tywyll. Mae gan bob coeden genawon gwryw a ffrwythau benyw sy'n tyfu i fod yn debyg i foch coed bychain.

3. Pan gaiff pren y wernen ei orchuddio mewn dŵr mae'n mynd cyn galeted â charreg. Oherwydd hyn, byddai'r wernen yn cael ei defnyddio i wneud llifddorau camlesi ac argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr. Mae llawer o ddinas Fenis wedi'i hadeiladu ar bolion wedi'u gwneud o foncyffion gwern.

4. Oddi wrth ddŵr ac yn yr awyr agored, mae'r wernen yn pydru'n hawdd. Am y rheswm yma yn anaml y byddai'n cael ei defnyddio i adeiladu ffensys ac adeiladau. Mae, fodd bynnag, yn gwneud golosg da iawn sy'n llosgi gyda gwres enbyd. Byddai'r golosg hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd wrth gynhyrchu powdwr gwn.

5. Mae gan y wernen briodoleddau sefydlogi nitrogen ac mae'n gwella ffrwythlondeb y pridd ble mae'n tyfu. Am y rheswm yma, caiff y wernen ei defnyddio'n aml i helpu i adfer safleoedd diwydiannol a thir llygredig arall.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Gellir gwneud lliw gwyrdd o'r blodau ac mae cred bod hwn wedi'i ddefnyddio i liwio dillad Robin Hood. Gellir defnyddio'r rhisgl i wneud lliw coch brownaidd sy'n cael ei adnabod fel coch Aldinaidd.

Y gred oedd y byddai rhoi dail y wernen y tu mewn i'ch esgidiau cyn cychwyn taith hir yn oeri'r traed ac yn atal chwyddo.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**
COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Masarnen Fach Field Maple *(Acer campestre)*



1. Mae'r fasarnen fach i'w chael yn aml ar sialc neu garreg galch mewn coedwigoedd a gwrychoedd.

2. Mae hi'n goeden hardd gyda rhisgl rhesog golau a choron drwchus o ddail llabedog cain. Mae'r dail yn troi'r melyn mwyaf llachar o unrhyw goed brodorol yn yr hydref.

3. Mae gan y fasarnen fach flodau sy'n agor gyda'r dail yn niwedd y gwanwyn. Mae'r blodau'n fychain, yn bell oddi wrth ei gilydd ac yn felynwyrdd eu lliw. Mae'r goeden yn dwyn ffrwythau dwyadeiniog, y mae plant yn eu defnyddio fel hofrenyddion yn aml.

4. Mae pren y fasarnen fach yn wydn ac yn fân ei raen ac yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gogyfer â gwaith turnio a cherfio. Yn y Canol Oesoedd, defnyddid y pren i wneud offerynnau cerdd.

5. Mae'r dail yn cynhyrchu melwlith sy'n atyniadol i'r glöyn byw Brithbin Gwyn. Mae'r fasarnen fach yn blanhigyn bwydo lindys y rhywogaethau canlynol o wyfynod: Gwyfyn y Gaeaf, Gwyfyn Smwt y Fasarnen, Gwyfyn Moca, Gwyfyn Tonnog melyn bychan, Gwyfyn y Fasarnwydden Fwyaf.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Credid y byddai estyn plentyn drwy ganghennau'r fasarnen fach yn sicrhau hir oes iddo ef neu iddi hi.

Yn ôl llên gwerin o Alsás, byddai gosod canghennau'r fasarnen fach yn y tŷ yn sicrhau amddiffyniad rhag ystlumod.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Oestrwydden Hornbeam (*carpinus betulus*)

1. Mae'r oestrwydden yn ffafrio priddoedd ffrwythlon neu glai iseldir ac mae'n gallu goddef cysgod. Gellir ei phrysgoedio neu'i brigdocio.

2. Mae gan yr oestrwydden risgl llwyd arianlliw golau. Mae'r dail yn hirgrwn gydag ymylon dauddanheddog amlwg. Mae gan y coed gatcynnau yn y gwanwyn a chnau bychain yn yr hydref. Mae coed iau yn cadw eu dail gydol y gaeaf yn aml.

3. Y cnau bychain yw prif fwyd y gylfinbraff yn yr hydref a'r gaeaf..

4. Mae gan yr oestrwydden bren graen clos caled dros ben sy'n dda ar gyfer coed tân a chynhyrchu golosg. Mae'r pren wedi'i ddefnyddio'n draddodiadol ar gyfer olwynion cocos a phlociau torri cigyddion. Mae wedi'i ddefnyddio hefyd i wneud y morthwyl taro mewn pianos.

5. Mae'r enw Saesneg 'hornbeam' yn golygu;
horn – pren caled, gwydn
beam – hen air Saesneg am goeden.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Defnyddiai'r Rhufeiniaid yr oestrwydden i wneud eu cerbydau rhyfel oherwydd cryfder y pren.

Gellir gwneud tonig y dywedir ei fod yn ysgafnu blinder a lludded o'r oestrwydden.

Defnyddid dail yr oestrwydden yn draddodiadol i atal gwaedu a gwella clwyfau.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**
COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WÎDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Onnen Ash (Fraxinus excelsior)

1. Mae'r onnen i'w chael ar draws y Deyrnas Unedig mewn coedydd a gwrychoedd ble mae'r priddoedd yn llaith a ffrwythlon.

2. Mae gan goed a changhennau ifanc risgl llwyd golau, llyfn sy'n mynd yn wrymiog wrth fynd yn hŷn. Mae gan y brigau flagur du nodedig.

3. Mae blodau'r onnen yn agor ym mis Ebrill cyn i'r goeden ddangos ei dail. Nid oes gan y blodau ddim petalau neu sepalau, dim ond brigerau porffor. Mae'r hadlestri'n "adenydd" gwyrdd fflat sy'n hongian o goesynnau hir ym mhennau ac o ochrau brigau a changhennau. Gelwir yr hadau hyn yn "allweddi" yn aml oherwydd eu bod yn eu cyflwr gaeafol wedi'u cyffelybu i fwnsiaid o allweddi cloeon canoloesol. Caiff yr allweddi hyn eu defnyddio'n aml gan blant fel "troellwyr".

4. Mae'r pren y mae'r onnen yn ei gynhyrchu yn werthfawr oherwydd ei gryfder a'i ystwythder. Dywedir y bydd uniad wedi'i wneud o onnen yn dal mwy o bwysau nag unrhyw bren arall. Roedd echeli cerbydau rhyfel a choetsis yn cael eu gwneud o onnen ac felly hefyd rwyfau, dyrnau celfi a gwaywffyn. Mae defnydd mwy cyfoes yn cynnwys ffyn hoci, rhwyfau, padlau, llywiau, ffyn biliards, stympiau criced, ffyn polo a phastynau plismyn. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer argaenau a dodrefn.

5. Mae dwysedd pren onnen yn ei wneud yn danwydd delfrydol i'w losgi. Mae enw rhywogaeth Lladin yr onnen, Fraxinus yn golygu golau tân.

6. Mae'r onnen yn ddwfn ei gwreiddiau, sy'n sicrhau ei bod yn goroesi gwyntoedd cryfion ac yn caniatáu i'w rhychwant oes fod yn gannoedd o flynyddoedd.

MYTHAU A LLÊN GWERIN

Mewn llên gwerin Prydeinig priodolwyd amryw o briodoleddau amddiffynnol ac iachusol i'r onnen, wedi'u cysylltu amlaf ag iechyd plant. Rhoddwyd llond llwy de o sug yr onnen i fabanod newydd-anedig i wneud iddynt dyfu'n gryf.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Rhosyn y Cŵn Dog rose *(Rosa canina)*

1. Rhosyn y Cŵn yw'r math mwyaf cyffredin ac adnabyddus o rosyn gwyllt. Llwyn collddail ydyw a gall dyfu hyd at 3 medr neu fwy o uchder ac mae modd ei adnabod oddi wrth y coesau cryfion ar ffurf bwa, sydd â drain crymion. Fe'i ceir yn tyfu mewn coetir, gwrychoedd a thir prysg drwy hyd a lled y Deyrnas Unedig.

2. Mae dau eglurhad poblogaidd ynglŵn â sut y cafodd ei enw cyffredin. Yn ôl un gred hynafol gallai gwraidd y rhosyn wella brathiad ci lloerig. Mae'r eglurhad arall, yr un mwyaf tebygol efallai, yn awgrymu mai'r enw gwreiddiol yn y Saesneg oedd 'dag', yn cyfeirio at y drain a oedd yn debyg i ddagr, a thros amser fe newidiodd yr enw Saesneg yn 'dog'.

3. Yn ystod yr haf ceir blodau cain pum petal gwyn neu binc. Mae'r rhain yn aeddfedu'n egroes cochion yn yr hydref, sy'n boblogaidd iawn gyda'r adar.

4. Mae'r egroes hyn â chynnwys uchel iawn o fitamin C. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd trefnwyd gan y Weinyddiaeth Iechyd a Phwyllgorau Perlysiau Sirol fod yr egroes aeddfed yn cael eu casglu i gynhyrchu surop llawn fitaminau, a gymerwyd i wneud iawn am y diffyg ffrwythau ffres a oedd ar gael.

5. Yn draddodiadol fe ddefnyddid rhosyn y cŵn i drin blinder, anhwylderau ar y stumog ac amrywiaeth eang o gwynion eraill. Defnyddid yr egroes i wneud gwin, jam, sudd, surop a the. Mae modd sychu'r blodau i wneud pot-pourri a thynnu'r olew i wneud persawr. Mae'r hadau blewog y tu mewn i'r egroes wedi'u defnyddio gan genedlaethau o blant fel powdwr cosi effeithiol iawn!

6. Mae rhosyn y cŵn yn ffynhonnell bwyd i lawer o bryfetach. Er enghraifft, mae'r deilgoesau yn aml fel petaent wedi'u gorchuddio â chlustogau o 'fwsogl' coch a elwir yn bincas robin – sydd mewn gwirionedd yn cael ei wneud gan larfa gacynen sy'n creu marblis coed.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Yn y gorffennol fe dybid y gallai'r tylwyth teg, o fwyta egroesen ac yna droi deirgwaith yn groes i'r cloc, wneud hwy eu hunain ddiflannu. I ailymddangos roedd yn rhaid iddynt fwyta egroesen a throi deirgwaith eto – yr un ffordd â'r cloc y tro hwn!.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Active Kids 2010 – Active Kids We're Back

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Y Ddraenen Ddu Blackthorn (*Prunus spinosa*)



1. Mae'r ddraenen ddu yn llwyn collddail all ffurfio coed bach hyd at 10 metr o uchder. Fe fydd yn tyfu yn y rhan fwyaf o briddoedd ac mae'n gyffredin mewn perthi, coetiroedd a thir prysg ar hyd a lled y DG.

2. Y ddraenen ddu yw un o'r llwyni cyntaf i flodeuo gan gynhyrchu llu o flodau gwyn ar goesynnau moel, "du"; daw'r dail i'r golwg yn ddiweddarach.

3. Caiff ffrwythau du-las y ddraenen ddu – yr eirin duon – eu cynhyrchu yn yr hydref. Mae ganddynt siâp hirgrwn a gwawr bowdrog i'w crwyn. Mae ganddynt flas chwerw iawn, ond mae adar yn hoff iawn ohonynt.

4. Eirin duon yw hynafiaid eirin yr ardd, ac fe'u defnyddir i wneud jin eirin. Mae'n well cynaeafu'r ffrwythau ar ôl iddynt ddioddef rhew cyntaf yr hydref, oherwydd fod y rhew yn tyneru'r croen ac yn gwella blas chwerw'r ffrwyth. Gellir defnyddio'r ffrwythau i wneud sudd, surop, jam, jeli a gwin.

5. Mae pren y ddraenen ddu yn galed a gwydn. Fe'i defnyddir i wneud ffyn cerdded, pegiau pebyll a dannedd cribinau gwair. Dyma'r pren hefyd a ddefnyddiwyd i wneud y pastwn Gwyddelig traddodiadol – y 'shillelagh'. Am ganrifoedd, defnyddiwyd y drain i wneud teclynnau pigfain ar gyfer gwaith lledr.

6. Yn y gorffennol, defnyddiwyd y ddraenen ddu mewn amryw o hen feddyginiaethau traddodiadol – gan gynnwys tonic a surop a oedd i fod i 'lanhau'r gwaed', lleddfu traul bwyd a lleddfu gwynegon. Roedd y meddyginiaethau hyn yn defnyddio rhisgl, blodau a ffrwythau'r ddraenen ddu.

7. Mae'r ddraenen ddu yn blanhigyn bwyd i'r gloyn byw brithribin du a brown.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Mae'r ddraenen ddu wedi'i hystyried yn goeden hudol ers tro byd; yn ôl y Celtiaid, roedd yn gartref i'r tylwyth teg. Credwyd fod ffon o'r ddraenen ddu â'r gallu i gadw ysbrydion drwg i ffwrdd.

Defnyddir drain y ddraenen ddu i geisio darganfod a oedd cariad yn dal yn ffyddlon drwy fynd at Ffynnon Saethon, Bodeuan, Llŷn. Wedi taflu drain ar wyneb y dŵr, rhaid oedd eu gwylio'n ofalus. Pe suddent doedd y cariad ddim yn ffyddlon.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu.
Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Y Ddraenen Wen Hawthorn (*Cratageus monogyna*)

1. Daw'r gair Saesneg "Hawthorn" o'r gair Eingl-Sacsonaidd "Hagathorn", gyda "Haga" yn golygu perth. Er ei bod yn effeithiol fel perth, mae'n bosibl iddi dyfu i fod yn goeden 10 metr o uchder.

2. Mae gan y Ddraenen Wen lawer o enwau eraill gan gynnwys:

Quickthorn" (Saesneg) – gan ei bod yn tyfu mor gyflym a'i bod yn draddodiadol yn cael ei defnyddio i wneud perth drwchus i gau o gwmpas gwartheg a defaid.

"May" – gan ei bod yn blodeuo ym mis Mai.

Coeden bara a chaws – gellir bwyta'r dail ifanc; byddai hynny'n digwydd yn aml ar adegau caled.

3. Mae'r blodau'n wyn, weithiau gydag arlliw o binc arnynt, ac mae ganddynt sawr cryf. Maent yn ffynhonnell neithdar bwysig i gannoedd o rywogaethau gwahanol o bryfed.

4. Gelwir y ffrwythau coch yn afalau'r drain, ac fe'u cynhyrchir tuag at ddiwedd yr haf. Mae adar fel y fronfraith, aderyn yr eira a'r asgell goch yn hoff iawn o'r eirin. Mae'n debyg eu bod yn dda at drin clefydau'r galon.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Credir mai'r ddraenen wen oedd rhagflaenydd y fedwen Fai. Deuai garlantau Calan Mai ohoni hefyd.

Math o ddraenen wen yw draenen enwog Ynys Wydrin (Glastonbury). Dywedid fod y goeden hon yn hannu o'r goeden a dyfwyd o ffon Joseff o Arimathea (perchennog y bedd y rhoddwyd Iesu Grist i orwedd ynddi).

Mae'n anlwcus iawn i fynd â blodau'r ddraenen wen i'r tŷ. Os gwneir hyn bydd rhyw aelod o'r teulu yn marw.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk
COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Y Gelynnen Holly *(Ilex aquifolium)*

1. Llwyn neu goeden fechan fytholwyrdd araf ei thwf yw'r gelynnen. Gall dyfu hyd at 10 medr o uchder ac fe geir llawer math gwahanol ohoni'n tyfu mewn gerddi. Fe'i gwelir yn isdyfiant mewn coedwigoedd ond fe'i ceir hefyd mewn gwrychoedd, prysgoed ac ar gyrion coetiroedd.

2. Mae gan y gelynnen ddail gwydn, pigog, gwyrdd tywyll a blodau gwyn. Gall y coed fod yn wryw neu fenyw; y llwyni benyw yn unig sydd yn dwyn ffrwyth, sef aeron. Mae'r rhain yn boblogaidd iawn gydag adar, yn arbennig y fronfraith a'r aderyn du, ond yn wenwynig i bobl.

3. Mae dail bytholwyrdd y gelynnen yn addurn Nadolig poblogaidd ond yn y gorffennol fe'u defnyddid yn borthiant i wartheg yn ystod y gaeaf.

4. Mae pren y gelynnen yn wyn neu'n llwydwyn ac mae'n llawer mwy trwchus nag unrhyw bren caled brodorol arall. Yn draddodiadol, fe'i defnyddid ar gyfer ei fewnosod a'i gerfio. Mae ffyn celyn syth yn boblogaidd iawn fel ffyn cerdded. Yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd galw mawr am goed celyn ar gyfer gwneud chwipiau i geir a cheffyl – yn anterth y cynhyrchu fe wnaed 210,000 y flwyddyn ohonynt

5. Yn hanesyddol bu llawer defnydd i'r gelynnen – roedd cred y gellid gwella'r pâs drwy yfed llaeth o fowlen a wnaed o bren celyn, a gwnaed te o'r dail i leddfu twymyn a chryd cymalau.

6. Mae'r gelynnen yn ffynhonnell bwyd i'r lindysyn dail celyn, pryfyn cyffredin sy'n byw o fewn y ddeilen ac yn gadael olion nodweddiadol sy'n hawdd eu gweld drwyddi. Mae'r titw tomos las yn bwydo ar y lindys ac ar adegau fe welir rhwyg bychan, siâp triongl yn y ddeilen lle mae'r aderyn wedi pigo'r ddeilen i gael at y lindys.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Yn ôl traddodiad credid bod gan goed celyn y grym i gadw drygioni draw, efallai oherwydd eu dail bytholwyrdd a'r aeron hiroesog. Bu'r gred hon yn gyfrwng i ddiogelu llawer coeden rhag bwyell y coediwr gan y tybiwyd ei bod yn anlwcus torri coeden gelyn. Efallai i'r ffaith y tybir mai'r gelynnen yw un o hoff goed y tylwyth teg yn lwerddon, lle y cyfeirir ati fel y 'goeden fwyn', fod yn ddigon i wneud i'r coediwr ailfeddwl hefyd.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk MoreTreesMoreGood.org.uk

COED CADW
WOODLAND TRUST

TRWY**WŶDD**
DDAW**BUDD**

Ffeithiau diddorol am y llwyni brodorol yn eich pecyn

Ysgawen Elder (*Sambucus nigra*)

1. Mae'r ysgawen yn llwyn collddail all dyfu hyd at 10 metr o uchder. Mae ganddo glystyrau mawr, gwastad o flodau gwyn ym Mehefin a Gorffennaf. Fe'u dilynir gan eirin ysgaw du-biws sy'n aeddfedu yn Awst a Medi.

2. Ni ddylid cymysgu'r ysgawen gyda'r wernen (coeden sy'n ffynnu mewn mannau gwlyb).

3. Gellir defnyddio'r blodau a'r ffrwythau i wneud diod blodau'r ysgawen a gwin eirin ysgaw. Roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio sudd eirin ysgaw fel lliwur gwallt ac mae surop eirin ysgaw yn feddyginiaeth dda at annwyd.

4. Daw'r gair Saesneg 'elder' o'r gair Eingl Sacsonaidd 'aeld', sef tân. Defnyddid coesynnau gwag y canghennau ifanc i chwythu aer ar dân. Defnyddiwyd y cosynnau hefyd i wneud ffliwtiau syml, chwibannau a gynnau pys.

5. I rai bobl, mae arogl blodau'r ysgaw yn sawrus, ond i eraill mae'r arogl yn annymunol. Fodd bynnag, maent yn boblogaidd iawn gyda phryfed, ac mae adar yn hoff iawn o'r eirin. Mae'r dail hefyd yn finiog, ac yn eironig, mae hynny'n cadw pryfed draw.

CHWEDLAU A LLÊN GWERIN

Yn Nenmarc, roedd gan y goeden gysylltiad â hud; credai pobl fod duwies y coed o'r enw Mam yr Ysgawen yn byw yn ei changhennau. Pe defnyddid y pren hwn i wneud dodrefn, byddai Mam yr Ysgawen yn dilyn ac yn aflonyddu ar y perchnogion. I rwystro hyn, roedd yn rhaid gofyn iddi cyn torri'r coed.

Roedd pobl yn ofni'r ysgawen. Yn Ne Cymru roedd yn gred gyffredinol ei bod yn beryglus codi tŷ yn ymyl coeden ysgawen neu lle roedd coed o'r fath wedi tyfu yn y gorffennol, ac ni fyddai'r teulu yn aros yno yn hir.

Mae gwneud te o flodau'r ysgawen yn feddyginiaeth dda at annwyd a ffliw.

Gellir bwyta ffrwyth yr ysgaw er mwyn helpu cwsg a thawelu'r meddwl.

4104 06/10

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
woodlandtrust.org.uk **MoreTreesMoreGood.org.uk**
COED CADW
WOODLAND TRUST